

# **papur priordy**



**‘Oherwydd myfi sy’n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,’ medd yr Arglwydd, ‘bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.’**

**Jeremeia 29, 11**

*Dewiswyd gan Hefina Phillips, Oakville, Ontario, Canada, un sy’n dilyn eim hoedfaon digidol yn gyson. Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn.*

**Rhifyn 360  
PAPUR TACHWEDD 2022**

## Cwpan y Byd

**POB LWC** i dîm Cymru ym mhencampwriaeth Cwpan y Byd yn Qatar!

Er y bydd y seremoni agoriaol ar 20 Tachwedd, bydd rhaid aros tan 18 Rhagfyr i weld pa dîm fydd yn codi'r tlws. Mis o bêl-droed – rwy'n ofni y bydd yn ormod i ambell un yn ein plith!



**FIFA WORLD CUP  
Qatar 2022**

Mae Tlws neu Gwpan y Byd FIFA ymhlith y mwyaf eiconig o dlysau ac wedi'i gynnwys yn rhai o luniau mwyaf cofiadwy'r byd pêl-droed.

Ond nid y tlws presennol yw'r un gwreiddiol. Tlws Jules Rimet oedd y tlws cyntaf i gael ei ddefnyddio. Cyflwynwyd y tlws hwn i'r tîm buddugol rhwng 1930 a 1970. Enw gwreiddiol y tlws oedd 'Victory'.



Mae hanes diddorol i'r tlws gwreiddiol. Yn ystod yr ail ryfel byd, yr Eidal oedd yn dal y tlws, ac fe'i cuddiwyd o afael y Natsïaid gan Is-lywydd FIFA a Llywydd Ffederasiwn Pêl-droed yr Eidal mewn blwch o dan ei wely tra oedd y rhyfel yn sgubo ar draws Ewrop.

Cafodd yr hen dlws ei ddwyn hefyd ar fwy nag un achlysur. Y tro cyntaf, yn Lloegr, ychydig amser o flaen Cwpan y Byd 1966, tra oedd yn cael ei arddangos yn Neuadd Westminster. Cafodd ei ddarganfod gan gi o'r enw Pickles wedi'i lapio mewn papur newydd o dan berth yn Ne Llundain. Afraid dweud bod Pickles a'i berchennog wedi dod yn arwyr cenedlaethol!

Cafodd y tlws ei ddwyn wedyn o gasyn diogel ym Mhencadlys Ffederasiwn Pêl-droed Brasil yn Rio de Janeiro. Ni ddaethpwyd o hyd iddo a bu rhaid i Frasil archebu replica o'r tlws.

Penderfynwyd ei bod yn bryd i'r hen dlws ymddeol a gwahoddwyd ceisiadau gan grefftwy'r a chynllunwyd i ddylunio un newydd.

Cyflwynwyd 53 o gerfluniau o 7 gwlad. Dewiswyd cynllun yr artist Eidalaidd, Silvio Gazzaniga ar gyfer y Cwpan Byd newydd.

Fe'i crëwyd yn Milan ym 1971. Ac erbyn heddiw, mae'r cerflun o ddau berson yn dal y byd uwchben eu pennau neu, yng ngeiriau'r cerflunydd, 'dau berson yn *derbyn* y byd.' *Dal* y byd neu *dderbyn* y byd. Bob tro y byddaf yn gweld Tlws FIFA Cwpan y Byd rwy'n cael f'atgoffa am y gân hyfryd honno a ddysgaais pan oeddwn yn blentyn 'Mae *ganddo'r byd i gyd yn ei law...*'



**OS GALL** un cerflunydd bortreadu dau berson yn dal y byd, pa faint mwy y gallwn ni weld Duw, drwy lygaid ffydd, yn dal y byd, y greadigaeth gyfan, a hynny'n cynnwys, ti a fi, a phawb arall ... yn ei law.

### Gweddïwn

Creawdwr ac Arglwydd y cenhedloedd,  
arwain, cynnal a diogela bawb a fydd yn cymryd rhan ym mhob  
ffordd yng Nghwpan y Byd 2022.

Gweddïwn y bydd pawb yn gweld y gystadleuaeth hon yn gyfrwng  
dathlu, ac yn brofiad a fydd yn portreadu dynoliaeth ar ei gorau.

Gweddïwn y bydd pawb yn mabwysiadu agwedd  
garedig tuag at eraill.

Yn enw Iesu Grist

**Amen**



## DARLLENIADAU



| Mis Tachwedd | Darlleniad    |
|--------------|---------------|
| Wythnos 1    | Salm 127      |
| Wythnos 2    | Salm 46       |
| Wythnos 3    | Salm 93       |
| Wythnos 4    | Salm 25: 1-10 |

**DIOLCH YN FAWR**  
***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**DIENW**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**APÊL TEGANAU NADOLIG**  
**CYNGOR SIR GÂR**



Byddwn yn cefnogi'r Apêl eto'r Nadolig hwn ac yn casglu anrhegion drwy gydol mis Tachwedd

Teganau i Fabanod, Plant neu Bobl Ifanc yn eu harddegau (newydd a heb eu lapio, os gwelwch yn dda)

Bydd Blwch Casglu yn y Capel

Dyddiad Cau – Sul olaf Tachwedd

Bydd y nwyddau'n cael eu trosglwyddo'r bore canlynol



**Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**

**Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022**

**Capel Blaenycloed**

**Y Gynhadledd am 10.30**

**Yn cynnwys Cyflwyniad gan Gymdeithas Gwasanaethau  
Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)**

**Cyfarfod y Prynawn am 1.30**

**Yn cynnwys Araith y Cadeirydd Newydd a Chymundeb  
Croeso ibawb**

## Cwrdd Diolchgarwch y Plant

**MAE** gennym ni, bob un ohonom, ddigonedd i fod yn ddiolchgar amdano yndoes? (Er, mi ydyn ni'n mwynhau cwyno am rai pethe, weithie hefyd.) Ac felly, roedd camu i mewn i'r Priordy ar fore Sul braf cyntaf mis Hydref yn un rheswm bach arall i fod yn ddiolchgar. Fe gofiwn mai diolch am y cnydau a'r cynhaeaf ffrwythlon fyddwn ni gyda'n cyrddau diolchgarwch, adeg pan fyddai'r rhan fwyaf ohonom ni flynyddoedd yn ôl wedi bod yn gweithio ar y tir dros fisoedd yr haf yn '*making hay while the sun shines*' ys dywed pobl sy'n siarad Saesneg. Byddai'r cyfnod hwn yn yr hydref yn amser i ymlacio ac i edrych yn fodlon ar ein hysguboriau llawn, ac i roi diolch. Ar un wedd, yn ein hoes fodern ni o archfarchnadoedd a'r we, rydyn ni wedi anghofio am y cyswllt uniongyrchol sydd rhngom â'n bwyd. Roedd y cwrdd diolchgarwch hwn yng nghwmni'r plant yn gyfle i'n hatgoffa'n hunain o hynny.

Cychwynnwyd yn ôl ein harfer gan adrodd y weddi foreol, '*Cyntaf gair a ddywedaf ...*' yna cynheuodd Beti-Wyn gannwyll Wcráin ac offrymu gweddi dros y sefyllfa erchyll barhaus yno.

Meredydd ddaeth i'r pulpud i gyhoeddi'r emyn cyntaf sef, '*Cofia bob amser*' a'i lais yn glir fel cloch. Ardderchog Meredydd, a diolch. Cafwyd cwmni band y Priordy ar gyfer pob emyn ac mae hynny'n sicr o godi calonnau pawb oherwydd mae gan y criw y fath egni ac afiaith wrth chwarae. Diolch, fand y Priordy!

Yna ar ôl i Adrian wneud y cyhoeddiadau (a diolch i bawb, obvs, gan mai dyma thema'n gwasanaeth ni) cafodd y casgliad ei wneud yn arbennig o effeithiol gan yr A-team (yr Arian team): Greta, Cadi Wyn a Hedd, a Mabli, Alys ac Iestyn. Diolch!

Yna, gwahoddodd Beti-Wyn y plant i ddod ymlaen gyda'u rhoddion ar gyfer y banc bwyd gan



atgoffa pawb ein bod yn wynebu gaeaf heriol eleni o ran costau byw ac y bydd y mwyaf anghenus yn ein plith yn dioddef (eto fyth).

Osian Snelson ddaeth wedyn i gyhoeddi'r ail emyn sef 'Pwy wnaeth y sêr uwchben?' eto gyda llais eglur a hyderus. Gwych Osian, a diolch.

Yna daeth Cadi ac Ifan ymlaen yn y pulpud i ddweud wrthym am fwyd ac am y ffaith fod Duw yn rhoi'r haul, y gwynt a'r glaw sy'n galluogi'n bwyd i dyfu yn y caeau. Rhoddodd y ddau enghreifftiau o'r camagraff y mae plant yn ei gael o feddwl am ble daw ein bwyd. Rhai yn meddwl bod caws yn dod o blanhigyn

(wel, mae gen i *cheese plant* yn tyfu mewn pot yn fy ystafell fyw i, ond does dim caws arno, fe es i i edrych, rhag ofn), tomatos yn tyfu o dan y ddaear, a *fish fingers* wedi'u gwneud o gyw iâr.

Anhygoel! Rhaid i ni feddwl yn fwy gofalus am ein planed,

am ein bwyd ac o ble mae ein bwyd yn dod. Yna fe gawson ni ganu'r rhigwm adnabyddus '*Tu ôl i'r dorth mae'r blawd*' er mwyn ein hatgoffa ni o ble daw ein bwyd. Diolch Cadi ac Ifan am wneud i ni chwerthin ac am wneud i ni feddwl.



Tro Elliw oedd hi wedyn i siarad am yr elfennau sy'n gwneud i'n bwyd ni dyfu, yr haul a'r nos a'r dydd, y glaw a chymylau, y tywydd i gyd. Aeth ymlaen i sôn am ein ffermwyr sy'n plannu hadau grawn er mwyn tyfu âd ac yn sicrhau bod y cnydau'n llwyddiant cyn eu cymryd at y melinydd i wneud blawd a'r blawd hwnnw'n cael ei ddosbarthu i bob cwr er mwyn gwneud bara. Dangosodd Elliw fod yna gadwyn o bobl yn cydweithio er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru prynu torth o fara. Yna cydweddiodd pawb weddi yn arwain ymlaen at weddi'r Arglwydd. Diolch Elliw am ddarlunio'r cyfan mor glir i ni.

Canwyd y trydydd emyn, '*O, o, o, mor dda yw ein Duw*' a chyfeiliwyd yn ardderchog i'r cyfan gan y band taro, sydd wedi dod yn un o uchafbwyntiau'r gwasanaethau plant erbyn hyn. Maen nhw'n griw MOR dalentog. Roeddech chi'n taro deuddeg bob un, diolch! Yna cafodd Beti-Wyn gyfle i roi neges i'r plant (yn *sneaky* reit, mae'r neges hon hefyd yr un mor berthnasol i ni'r oedolion ac felly roedd angen i ni GYD fod yn gwrando). Thema ei neges oedd pobl yn helpu'i gilydd.

Gofynnodd Beti-Wyn am help ac roedd help parod Aneurin, Brynmor a Cadi i'w gael. Gofynnodd Beti-Wyn iddyn nhw ddal afal ac ymestyn eu breichiau allan yn syth, yna ceisio bwyta'r afal heb blygu eu breichiau.



Fe fethodd y criw glew, felly dyma ddau arall yn dod i gael tro, Ifan ac Osian. Doedd y ddau yma ddim yn gallu bwyta'r afalau chwaith. Ond pan ofynnodd Beti-Wyn iddyn nhw droi i wynebu ei gilydd a bwydo'r afalau i'w gilydd, wel, yn sydyn roedd gloddesta mawr yn digwydd yn ogystal â lot o

ddriblo. Roedd hyn yn ddarlun perffaith o sut mae cydweithio i helpu ein gilydd yn medru bod o fudd i BAWB. Soniodd Beti-Wyn fod hyn yn bwysig o ran cynhyrchu bwyd hefyd.

Aeth Beti-Wyn ymlaen i ddangos fod y gadwyn fwyd yn dibynnu ar y ffaith fod gan bawb eu rhan yn reit debyg i weny, sy'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu'r cwch a chreu'r mêl. Soniodd ein bod ni fel teulu yn y Priordy, ac yn deulu Duw hefyd, â'n rhan ac â'n gwaith i'w wneud, does neb yn rhy fach nac yn rhy fawr. Mae gan y cwch gwenyn ei brenhines ac mae gennym ninnau ein brenin, sef Iesu Grist.

Mae'r gwenyn yn cynhyrchu mêl hefyd wrth gwrs, sydd â blas 'iymi' iddo yn ôl y gwybodusion, ac rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd fel y gwenyn i rannu cariad Duw sy'n felys hefyd. Ac er mwyn atgoffa pob plentyn o'r neges rhoddodd Beti-Wyn botyn bach o fêl i bob un fynd adre gyda nhw, gan siarsio nad oedd neb i agor y potiau cyn cyrraedd adre, gan y gallai hynny achosi sefyllfa go stici mewn gwirionedd.

Diolchwyd yn fawr i fand y Priordy unwaith yn rhagor a rhoi cymeradwyaeth iddyn nhw am eu cyfraniad bywiog, hwyliog ac fe ddiweddwyd yr oedfa drwy ganu emyn '*Mae'r bysedd sydd yn clicio yn rhodd gan Dduw*', ynghyd â gwneud y symudiadau i gyd, cyn i ni gael y fendith.



Unwaith yn rhagor, fe gawsom amser hyfryd yng nghwmni'n gilydd gan fod yn ddiolchgar am lawer. Y mae Duw yn hael i ni, diolch am hynny.



**ON:** *Shout out i'r ysgubau* ŷd sydd wedi hongian oddi ar y pulpud yn ddirwgnach bob cwrdd ddiolchgarwch ers hyn i fi gofio, ac mae hynny'n amser maith, maith, maith yn ôl erbyn hyn ... Diolch ysgubau! Daliwch ati!

## CWRDD DIOLCHGARWCH YR HWYR

Roedd hi'n braf croesawu nifer o gyfellion atom o wahanol gapeli'r ardal ar gyfer ein cwrdd diolchgarwch hwyr ol gyda'n Gweinidog a'r Parchedig David Jones, Greenfield, Llanelli.



Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Alun Charles (darlleniad) ac Alison Parsons (gweddi). Yr organydd oedd Meinir Lloyd a Ffion a Mali oedd y casglyddion.

Seiliodd ein pregethwr gwadd ei neges ar ddameg Y Gweithwyr yn y Winllan yn yr Efengyl yn ôl Mathew (Pennod 20 Adnodau 1-16). Mae'r ddameg yn sôn am rai yn cael eu galw i weithio yn y winllan ar wahanol oriau. Yr un wobwr sy'n cael ei rhoi i'r rhai sy'n dechrau gweithio yn fore, a'r rhai sy'n dechrau gweithio yn y p'nawn.

Drwy'r ddameg hon dangosodd ein pregeddwr gwadd mai'r un bywyd tragwyddol sydd wedi'i addo gan Iesu i'w bobl pryd bynnag y dônt i gredu ynddo. Rydym yn rhan o gynllun ac awdurdod Duw a'n baint yw derbyn hynny a gweithio drosto drwy Iesu tra bo'r cyfle gennym a hynny er gogoniant iddo ac nid oherwydd y wobwr.



Roedd y Cymun yng ngofal ein Gweinidog a chofiodd am sawl teulu galar yng nghapeli'r cylch, yn cynnwys teulu'r ddiweddar Muriel Gibby, a fu mor ffyddlon, ynghyd â'i diweddar ŵr John, i'r cwrdd. Fe'i cynorthwywyd i weini'r Cymun gan Alison Parsons, Catrin Heledd Jones, Philip Jones a Huw Jones.

I ddiweddu'r noson mwynhawyd swper hyfryd gyda'n gilydd yn y Festri a diolchodd ein Gweinidog i'r gwragedd a fu'n gweini a phawb arall a fu'n cynorthwyo i wneud yr achlysur yn un mor fendithiol a dymunol



## GWASANAETH DIOLCHGARWCH Y PLANT





Dydd Gweddî'r Byd

## Cynhadledd

i baratoi ar gyfer  
Dydd Gweddî 2023

Dydd Mercher,  
30 Tachwedd 2022  
10.30 tan 12 o'r gloch  
Festri Capel Heol Awst,  
Caerfyrddin

Panod o 10 o'r gloch ymlaen  
Mynediad £2


Lansiad

## Anwyddoldeb

yng nghwmni  
Elinor Wyn Reynolds  
a Tudur Dylan Jones

Nos Fercher,  
16 Tachwedd  
6.30 o'r gloch

Yn bar Cwrw,  
Stryd y Brenin,  
Caerfyrddin



Cyhoeddiadau  
Barddas



[www.barddas.cymru](http://www.barddas.cymru)



CYNGOR LLYFRAU CYMRU  
BOOKS COUNCIL OF WALES

### CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

#### CYFARFOD AR Y THEMA YMDDIRIEDOLWYR EGLWYS

Nos Iau, 17 Tachwedd 2022 – 7 o'r gloch

Festri Heol Awst

Siaradwyr

Y Parchedig Dyfrig Rees

Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Y Parchedig Tom Defis

Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol y Cyfundeb

Hefyd yn bresennol i ateb unrhyw ymholiadau

Luned Voyle - Cyfreithiwr

*Dewch i glywed am gyfrifoldebau a dyletswyddau  
ymddiriedolwyr eglwys. Dewch i gyfddyddio'ch gwybodaeth Dewch i drafod a  
chodi cwestiwn. Mae croeso cynnes i bawb syn ymddiddori yng ngwaith yr  
eglwys ac nid i ymddiriedolwyr yn unig*

## BORE COFFI MACMILLAN

Codwyd £1200! Llongyfarchiadau mawr i Alison a'r Tîm!





## Cinio Blasus

**UNWAITH** eto roedd hi'n hyfryd gweld aelodau'r Priordy, Cana a Bancyfelin yn dod at ei gilydd i ginio dydd Sul.



Cyfeillion capel Cana gafodd y syniad rai blynyddoedd yn ôl a braf yw cael dweud bod yr arferiad yn parhau.

Ym mis Gorffennaf trefnwyd taith i Soar y Mynydd gan alw ar y ffordd adre yn Nhafarn y New Cross yn Nryslwyn. Bu canmol mawr bryd hynny ac felly doedd dim angen meddwl yn hir pa le i fynd y tro hwn.

Unwaith eto cafwyd yr un ymateb i'r ginio a'r croeso gan deulu Blakemans ar ddydd Sul, 23 Hydref.



Gyda dros 50 yn bresennol gwelwyd cyfle i gael cymanfau ganu gyda'r Gweinidog, Beti-Wyn yn dangos ei thalent fel arweinydd. Atgyfnerthwyd y canu gan lais hyfryd y tenor Dafydd Jones - sy'n dal cysylltiad agos â'r Gweinidog (Cariad Elin, ei merch). Cadwodd pawb mewn

tiwn diolch i Heather Williams a fu'n cyfeilio.

**DIOLCHODD** Cadeirydd yr Ofalaeth, Sulwyn Thomas i bawb. Prawf diiamheuol o lwyddiant y prynhawn oedd yr alwad am ailadrodd y profiad eto yn fuan.



## CINIO SUL YR OFALAETH



**Rheswm Hefina Phillips dros ddewis  
adnod o Lyfr Jeremeia...**



**P**am ddewisiais i'r adnod hon - yn enwedig gan taw yn Saesneg ddes i o hyd iddi gynta? *"I have plans for you," said the Lord, "plans for good and not for evil."* Ac ar y pryd do'n i ddim hyd yn oed yn berchen ar Feibl Saesneg! Rhaid cyfadde reit ar y dechrau mod i ddim yn gyfarwydd â Jeremiah, felly pam yr adnod hon?

Stori hir! Dros y blynyddoedd ro'n ni fel teulu wedi symud nifer o weithiau i sawl gwlad. Ro'n i'n giamster ar bacio'r plant, y ci a'r piano a bant â ni! Ond wedi symud i Ganada roedd pethau'n fwy sefydlog (neu o leia dyna ro'n i'n ei feddwl) ac roedd nawr yn bryd i finnu ddilyn fy ngyrfa. Ces i swydd wrth fy modd mewn Coleg ar bwys, a dyna lle bues i tra oedd yn plant yn gorffen eu haddysg. Roedden ni wedi bod yn yr un dre (a'r un tŷ) am ddeng mlynedd, a finnu wedi ymgartrefu. Dim rhagor o symud! Ond cafodd y gŵr gynnig swydd yn Atlanta, Georgia, ac i ffwrdd â ni unwaith eto – ond y tro hwn heb y plant.

Mae'n naturiol bod yn plant yn gadael y rheini ond 'dyw hi ddim yn naturiol bod y rhieni'n gadael y plant. Felly, 'sdim rhaid egluro nad o'n i'n or-hapus am y symud. Adnabod neb yn Atlanta, wrth gwrs, ac yn methu gweithio gan fod rhaid aros am ddwy flynedd am ganiatâd swyddogol gan y llywodraeth. Ac mae bywyd yn Nhaleithiau'r De yn wahanol iawn. Roedd setlo i mewn i'r bywyd newydd yn anodd iawn - nid dim ond achos diwyllant gwahanol ond hefyd roedd rhaid i fi ddysgu cau 'nheg pan oedd pobl yn siarad am wleidyddiaeth. Pallodd y gwr â gadael i fi roi arwydd "Pleidleisiwch dros Al Gore" yn yr ardd ffrynt gan taw Asgell Dde eithafol oedd y cymdogion!!

Na, do'n i ddim yn setlo'n rhy dda- a dweud y lleua. Ond daeth ffrind o Wisconsin i ymweld â ni ac fe ges i gyfle i rannu 'nghwynion 'da fe. Mewn chwinciad roedd e wedi cysylltu gyda ffrind arall yn Arizona a dweud wrthi mod i'n anhapus iawn ac yn methu setlo. Mewn ychydig ddyddiau daeth llythyr wrthi hi yn cynnwys yr adnod: *"I have plans for*



you, saith the Lord, plans for good and not for evil". Neges bwrpasol ac amserol iawn. A dw i wedi cadw'r adnod ar flaen fy nghof ers hynny.

Do, nes i fwynhau a manteisio ar y blynyddoedd haes i yn Atlanta, a gwneud ffrindiau da iawn. A do, fe ddaeth caniatâd i fi fynd nôl i ddysgu- unwaith eto swydd wrth fy modd mewn coleg yn Atlanta, a bod yn ddigon lwcus i weithio gyda'r pennaeth gorau erioed! Pleser ar y mwya oedd gyrru i'r gwaith bob bore.

**M**ae llawer o bethau wedi newid yn fy mywyd ers hynny. Yn aml iawn dw i'n methu credu'r holl fendithion. Ambell waith, serch hynny, mae pethau'n mynd dros ben llestri, fel ni'n dweud yng Nghwm Tawe, a finne'n dechrau mynd i banig gan fy mod i'n methu ymdopi. Dyna pryd dw i'n cofio llythyr fy ffrind â'r adnod: *"Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer... bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol."*



#### **CWLWM MONDULI**

#### **CARTREF CYNNES**

**Heol Llansteffan, Caerfyrddin**

**Dydd Sadwrn 26 Tachwedd 11.00-2.00**

**Nadolig**

**Ffair Gelf a Chrefft**

**Raffl**

***Caerfyrddin a Gorllewin Cymru'n cefnogi  
prosiectau bychan cymunedol***



#### **NOSON LAWEN LLYFRAU LLAFAR CYMRU**

**NOS WENER 11 TACHWEDD 2022 - 7 - NEUADD SAN PEDR**

**Rhian Roberts Tecwyn Ifan**

**Ifan Gruffydd Pwdin Reis**

**Corau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

**Arweinydd - Marci G**

**Llywydd – Gwilym Dyfri**

**Tocynnau £10 (Oedolion) / £5 (Plant)**

**Elw – Llyfrau Llafar Cymru**

# POBI BARA YN YR YSGOL SUL



# T



Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich emynau? Mae ail linell deg emyn isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Mae'n Rhifyn Tachwedd a chan hynny mae pob llinell gyntaf yn dechrau gyda T Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!



|    |                                            |   |
|----|--------------------------------------------|---|
| 1  | fy Nghrëwr mawr a'm Duw                    | T |
| 2  | ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon | T |
| 3  | am dy ddoniau rhad                         | T |
| 4  | a hud i'r machlud mwyn                     | T |
| 5  | tro di ein nos yn ddydd                    | T |
| 6  | awn yn fintai gref                         | T |
| 7  | ti yw'r un sy'n bywiocáu                   | T |
| 8  | ac yn galon fwy na'r byd                   | T |
| 9  | atat ti y daw pob cnawd                    | T |
| 10 | tydi a roddaist imi flas ar fyw            | T |

Atebion ar Dudalen 39




## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### Ailafael

Y neges a anfonwyd ddechrau Medi oedd: Byddwn yn croesawu plant a'r bobl ifanc yn ôl i'r capel a'r Ysgol ar ôl yr Haf ac ar ôl dwy flynedd o wneud pethau yn 'wahanol' iawn. Mae pawb yn edrych ymlaen at y tymor newydd. Yn dilyn yr oedfa bydd yr Ysgol Sul yn mynd am drip i Lanberis lle bydd taith ar drên bach Llyn Padarn a phicnic wrth y llyn. Os gwyddoch am unrhyw blentyn fyddai'n hoffi ymuno efo'r Ysgol Sul yn Salem, cofiwch ddweud fod croeso mawr i unrhyw un!

### Clwb Ieuenctid

Dechreuodd Clwb Ieuenctid newydd ar y cyd â Seilo [Eglwys Bresbyteriaidd Caernarfon] ddiwedd Medi. Mae'r Clwb ar gyfer ar gyfer pobl ifanc oed Blwyddyn 7,8 a 9 ac yn cyfarfod bob pythefnos. Er mai Salem a Seilo sy'n trefnu'r Clwb mae ar agor i unrhyw berson ifanc



### Darlith Hanes

Cynhaliwyd darlith hanes **Teulu Gwern Gof Isaf, Capel Curig** gan **Alun Roberts** yn Salem yn ddioweddgar. Aeth holl elw'r noson at Apêl Caernarfon Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023



### Oedfa Undebol Cyngor Eglwysi Caernarfon

Cynhaliwyd yr Oedfa Deulu yn Seilo yn ddioweddgar. Y thema oedd Cyngor Eglwysi'r Byd gan ei fod newydd gyfarfod





# MWYNHAU YN YR YSGOL SUL TRWY GERDD

## (GYDA CHYMORTH Y FENTER IAITH)



IFANC@PRIORDY

CWILOTAIR LLYTHYREN 'FF'

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | F | H | F | F | F | F | E | R | M | W | R | F | D |
| U | D | F | I | F | F | N | N | N | R | F | E | F | D |
| N | F | F | Y | D | D | O | F | F | F | F | L | L | Y |
| F | R | F | F | F | R | N | F | I | L | A | N | A | W |
| Y | O | M | I | R | O | N | I | M | G | U | E | C | A |
| Y | H | E | A | R | L | Y | O | B | A | F | R | H | F |
| F | F | B | F | L | F | F | L | A | F | F | B | N | F |
| O | F | E | F | F | F | F | F | O | F | O | S | N | L |
| F | U | O | O | I | A | F | F | F | E | R | Y | F | F |
| M | G | I | N | W | O | I | A | R | N | D | G | E | F |
| D | R | F | U | F | I | F | N | R | E | D | I | A | F |
| E | G | F | M | N | R | A | O | A | S | E | F | O | O |
| F | F | A | I | R | D | F | I | R | T | F | F | F | R |
| H | H | O | F | L | R | L | E | W | R | A | F | F | D |

FFORDD  
FFENESTR  
FFLACH  
FFYNNON  
FFYDD

FFIOL  
FFAIR  
FFARWEL  
FFOI  
FFERMWR

FFAFR  
FFLAM  
FFON  
FFISGYSBREN  
FFAU

### **Yn y festri...**

Diolch i bawb sydd wedi ymuno â ni yn yr Ysgol Sul yn ystod mis Hydref. Wel, rydych wedi cael amrywiaeth o weithgareddau o sesiwn gelf a chreffft i bobi bara gyda



Llinos! Mae lluniau o'r holl weithgareddau i'w gweld mewn man arall yn y papur hwn. Mae'r byrddau ar y waliau yn y festri yn edrych yn hyfryd. Diolch i chi i gyd ac i Jayne am eich gwaith.

## **NADOLIG!**

### **Gwasanaeth Nadolig PIP**

dan olau kannwyll

Nos Sul, 4 Rhagfyr am 5yh

Croeso i bawb



**Gwasanaeth Nadolig  
yr Ysgol Sul a'r Eglwys**  
B'nawn Sul, 11 Rhagfyr am 3yp  
(Ymarfer yn y bore am 10)



**Te parti bach i'r plant yn y festri wedi'r oedfa  
Mins peis i bawb arall.**

### **Apêl Teganau Nadolig**

Tybed a hoffet ti helpu i wneud Nadolig un o blant Sir Gâr yn un sbesial? Fedri di ein helpu? Dere ag anrheg fach i'r capel yn ystod Suliau Tachwedd a'i gosod yn y blwch anrhegion. Diolch i ti.



Hwyl am y tro  
Betí-wyn




# MWYNHAU YN YR YSGOL SUL TRWY GERDD

## (GYDA CHYMORTH Y FENTER IAITH)



### CHRISTIAN BARNARD



**ROEDD** 1967 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes meddygaeth. Dyna pryd y cyflawnwyd y trawsblaniad calon cyntaf gan achosi cyfuniad mawr o ryfeddod, syndod ac anghrediniaeth. Go brin yn wir y bu unrhyw lawdriniaeth mor ddadleuol â hon, gyda rhai'n cyhuddo'r llawfeddyg Christian Neethling Barnard o gymryd gwaith Duw i'w ddwyllo ei hunan.

Ganed Barnard ar 8 Tachwedd 1922, sef can mlynedd yn union yn ôl i'r mis hwn, yn fab i Adam Hendrik Barnard, gweinidog anghydfurfiol ar gynulleidfa o bobl liw yn Beaufort Orllewinol, De Affrica. Rhyfedd meddwl na allai'r mab addoli yn yr eglwys hon oherwydd rheolau apartheid! Ei fam oedd Maria Elisabeth de Swart. Roedd ganddo ddau frawd ac un chwaer. Collwyd brawd arall pan oedd yn dair oed a chwaer arall a oedd yn farw-anedig.

Digon tlawd ei amgylchiadau oedd y teulu. Bach oedd cyflog y tad mewn cymhariaeth â chyflog gweinidogion eglwysi'r bobl wyn. Serch hynny, roedd yr aelwyd yn un ofalgar a hapus iawn ac yn llawn anogaeth.

Derbyniodd Barnard ei addysg gynnar yn Ysgol Uwchradd Beaufort - ysgol i blant gwyn. Gweithiai'n galed a gwnaeth yn dda er nad oedd yn disgleirio! Roedd yn hoff o gerddoriaeth a chwaraeon.

Aeth ymlaen i'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Cape Town a graddio'n feddyg ym 1946. Ar ôl treulio cyfnodau byr yn feddyg teulu mewn ardaloedd gwledig, dechreuodd hyfforddi mewn llawfeddygaeth yn Ysbyty Groote Schuur yn Cape Town. Byddai'n ymchwilio llawer fin nos i heintiau plant a thriniaethau i'w gwella.

Ym 1956, aeth i Minneapolis, canolfan ar gyfer llawfeddygaeth ar y galon ble dysgodd dechnegau llawfeddygol newydd ac ymchwilio i beiriannau calon-ysgyfaint.

Dychwelodd i Cape Town ym 1958 fel arbenigwr mewn llawfeddygaeth y galon a'r frest a chyfarwyddwr ymchwil llawfeddygol. Roedd wedi



ennill gradd meistr a doethuriaeth erbyn hyn,

Dechreuodd ymhél â maes newydd arall iddo, sef trawsblannu organau. Perffeithiodd ei dechnegau drwy ddefnyddiol cŵn a thrwy ddyfalbarhau aeth yn fwy ffyddiog y gallai gynnig y driniaeth i ddynolryw.

Ar 3 Rhagfyr 1967, y perfformiodd ei drawsblaniad calon cyntaf ar glaf. Cipiodd y digwyddiad ddychymyg y cyhoedd ar raddfa eang a daeth Barnard yn un o'r personau mwyaf adnabyddus



drwy'r byd i gyd dros nos fel petai. Bu'r claf, **Louis**

**Washkansky**, fyw am ddeunaw niwrnod wedi'r llawdriniaeth, gan farw o niwmonia a ddatblygodd o ganlyniad i'w system imiwnedd yn gorfod addasu i'r galon newydd yn ogystal â chymhlethdodau eraill.




Er na ddylid dibrisio cyflawniad, dewrder a gweledigeth Barnard, un cam pellach oedd y trawsblaniad, fel y cyfaddefai, yng nghynnydd

llawfeddygaeth. Dilynwyd hynny gan drawsblaniadau eraill, ond un o brif broblemau'r llawdriniaethau cynnar hyn oedd y risg o wrthodiad o ganlyniad i'r trawsblaniad. Cafodd hynny ei ddatrys drwy ddatblygu cyffuriau arbennig sy'n helpu'r corff i dderbyn yr organ newydd. Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae'r dechneg i drawsblannu calon yn rhagorach ond oni bai am waith arloesol a diflino Barnard, fyddai'r peth ddim yn bosibl. Bellach, mae tua 3,500 o drawsblaniadau calon yn digwydd ar draws y byd bob blwyddyn a thros eu hanner nhw yn yr Unol Daleithiau.

Yn wahanol i lawer o lawfeddygon, roedd Christian yn llawn carisma – cyfuniad o fod yn olygus, deallus a ffraeth, yn naif o onest yn aml a pharodrwydd i fynegi'i deimladau heb unrhyw gywilydd. Roedd y cyfan hyn yn peri i eraill ddymuno'i weld a bod yn ei gwmni ac i sgwrsio ag e. Roedd yn siaradwr cyhoeddus grymus ac effeithiol. Gwisgai'n drwsiadus mewn siwtiau Eidalaidd a gadawodd i'w wallt dyfu'n hir yn ôl ffasiwn y cyfnod. Byddai'i hoffter o gyhoeddusrwydd a bod yng nghwmni merched hardd yn denu'r paparazzi. Yn wir, ym marn llawer roedd yn cael ei ystyried yn dipyn o blesergarwr!

Roedd yn ogystal yn ysgrifennwr toreithiog Ar wahân i'w ddau hunangofiant, *Chrstian Barnard: One Life* (1969) a *The Second Life* (1993), roedd yn awdur sawl llyfr arall ar feddygaeth a chydweithiodd ag eraill i ysgrifennu rhai nofelau. Roedd yn erbyn apartheid a byddai'i arfer o gyflogi nyrsys croenddu yn aml yn achosi daleuon,



Bu'n briod deirgwaith. Ei wraig gyntaf oedd Lourwite a chawsant ddau o blant. Ar ôl i'r briodas honno dorri, priododd â Barbara Zoellner, merch ifanc 19 oed ddeniadol a chyfoethog a chawsant ddau fab. Diweddodd y briodas honno mewn ysgariad a phriododd wedyn fodel ifanc, Karin Setzkom a chawsant ddau o blant ond pharodd y briodas ddim yn hir

iawn o gwbl.

Effeithiodd dau digwyddiad yn fawr ar ei fywyd yn yr wythdegau. Bu farw'i fab hynaf, yntau'n feddyg yn Cape Town a'l ail briodas yn torri. Ar ben hynny, roedd arthritis yn graddol afael yn ei ddwylo a bu rhaid i'w yrfa fel llawfeddyg ddod i ben. Ymddeolodd ym 1983 fel pennaeth Adran Lawfeddygaeth y Galon yn Ysbyty Groote Schuur. Wedi hynny, treuliodd ddwy flynedd fel Gwyddonydd Preswyl yn Athrofa Trawsblannu Oklahoma yn yr Unol Daleithiau ac yna fel Ymgynghorydd ar gyfer amrywiol sefydliadau yn yr Unol Daleithiau a'r Swistir. Yn y cyfnod hwn y dechreuodd ymddiddori mewn ymchwil gwrth heneiddio ond pan ataliwyd yr hufen a hyrwyddai yn yr Unol Daleithiau penderfynodd ymddeol. Dychwelodd i Dde Affrica ym 1987 ac ym 1998 sefydlodd Sefydliad Calon Christian Barnard ar gyfer cynorthwyo plant difreintiedig. Yn y cyfamser, roedd hefyd wedi datblygu diddordebau busnes, yn cynnwys ffermydd anifeiliaid yn ne Affrica.

Yn 2001, aeth ar ei wyliau i Paphos yng Nghyprus. Yna ar 2 Medi aeth i nofio ond bu farw ar ôl cael ei daro gan y fogfa.

Ychydig o bobl mewn hanes sydd wedi codi o ddinodedd i enwogrwydd byd eang mor gyflym â Christian Barnard. Fe'i disgrifir yn ail yn unig i Nelson Mandela fel dinesydd mwyaf enwog De Affrica a'r enw mwyaf mewn meddygaeth ers Hippocrates, tad meddygaeth.

**ROEDD** ei enwogrwydd yn ymwneud ag un peth yn benodol – y ffaith ei fod y person cyntaf i gyflawni llawdriniaeth naill ai na ddylai neu na fedrai ddigwydd am resymau technegol neu foesol. Bellach mae nifer sylweddol o drawsblaniadau'r galon yn digwydd (a thrawsblaniadau eraill o ran hynny) ond yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, roedd hyd yn oed lawfeddygon yn llawn amheuan wrth ystyried trawsblanu calon dynolryw.



**Arddangosfa o luniau dyfrliw gwreiddiol**  
**gan**  
**D WALFORD DAVIES**



*Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi arddangosfa Walford yn y Llwyn Iorwg. Bu'n brynhawn hwylus iawn. Gwnaed elw o £250 at Gymorth Cristnogol.*



#### **TREFNIADAU DIWYGIEDIG**

**CRISTNOGAETH 21**  
**GORWELION NEWYDD**  
**CYNHADLEDD FLYNYDDOL 2022**

**Ar lein – trwy gyfrwng Zoom**  
**Bore Sadwrn 19 Tachwedd 2022 – 9.30-12.30**

**Cyfle i gyfrannu at gyfeiriad a datblygiad C21 i'n dyfodol**  
**Byddwn yn trafod tair o'n themâu gweithredol cyfredol:**  
**Capeli a Chartrefi**  
**Datblygu Adnoddau**  
**Cydweithio mewn Cenhadaeth**

**Cyfranwyr**  
**Dafydd Iwan**  
**John Roberts**  
**Pryderi Llwyd Jones,**  
**Cris Tomos,**  
**Gareth Ioan**  
**a mwy**

**Cofrestrwch drwy anfon e-bost at**  
**[Crisnogaeth21@gmail.com](mailto:Crisnogaeth21@gmail.com) cyn Dydd Llun 14 Tachwedd**  
**Anfonir dolen a dogfennaeth atoch yn ystod yr wythnos cyn y gynhadledd**

## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL - TRWY GREFFT





## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL - TRWY GREFFT





## GARETH GRAVELL AM EI GRWPIAU CERDD

**PP:** Rwy'ti wedi perthyn i sawl grŵp cerdd dros y blynyddoedd Gareth. Sut dechreuodd y diddordeb mewn cerdd yn y lle cyntaf?

**GG:** Roedd fy rhieni yn gerddorol iawn. Fy mam yn organyddes yng Nghapel Y Morfa Cydweli a'n nhad yn chwarae'r piano a hefyd yn chwarae'r trombôn ym Mand Pres Mynydd-y-Garreg. Roedd cerddoriaeth wastad ar waith yn ein cartre ac roedd yn beth naturiol i glywed fy rhieni yn ymarfer ar gyfer rhyw ddigwyddiad cerddorol. Ymunais â Band Mynydd-y-Garreg yn un ar ddeg oed yn chwarae'r cornet o dan arweiniad fy ewyrth, sef brawd fy nhad-cu. Felly, roedd cerddoriaeth yn rhan feunyddiol fwy neu lai o'm bywyd.

**PP:** Wyt ti'n cofio'r gitâr cyntaf gefaist ti?

**GG:** Ydw Gitâr acwstig Sbaeneg chwe thant a gefais yn anrheg Nadolig yn dair ar ddeg oed ac mae hi gen i hyd heddi!!

**PP:** Gest ti wersi cerdd o gwbl?

**GG:** Do, mi ges i wersi piano. Felly dysgais ddarllen cerddoriaeth a throi wedyn at y clarinet a chwarae yng ngerddorfa'r ysgol a cherddorfa Sir Gaerfyrddin. Dw i'n credo, fodd bynnag, fy mod wedi dibynnu'n fwy ar fy nghlust nag ar gerddoriaeth brintiedig.

**PP:** Pwy oedd dy arwyr cerddorol di ar y dechrau? A beth am heddiw tybed?



**GG:** Rwy'n cofio gweld Y Shadows yn y chwedegau cynnar a chael fy swyno gan y gitarydd **Hank Marvin**. Dyna, dw i'n credo, oedd dechrau fy hoffter o gerddoriaeth fodern a'r gitâr yn benodol. Rwy'n hoff o bob math o gerddoriaeth ac mae gen i sawl cerddor rwy'n ei edmygu, gan gynnwys Bob Dylan a hefyd y cerddorion blues cynnar, Muddy Waters a Buddy



*Guy. Rwyf hefyd yn edmygu'n fawr gerddorion clasurol, Julian Bream yn enwedig.*

**PP: Y grŵp cyntaf i ti ymuno ag e oedd Jac y Do? Gawsoch chi lot o hwyl, dybiwn i!**

**GG:** *Do'n wir! wir! Gyda'r cymeriadau doniol oedd yn y band, roedd hwyl yn rhan fawr o brofiad bod yn Jac y Do. Roedden ni'n gyfeillion agos hefyd a hynny'n ychwanegu at y mwynhad. Mi fuom yn cynnal twmpathau ar hyd a lled Cymru ac yn wir ymhellach. Bues yn ffodus i weld tipyn o'r byd gan gynnwys Canada, Yr Unol Daleithiau, Iwerddon Llydaw, Sbaen, Portiwgal, Hwngari a Gwlad Belg*



**PP: Wedyn Y Grogys. Beth oedd hanes ffurfio'r grŵp hwn?**

**GG:** *Sefydlais y Grogys gyda bechgyn Caerfyrddin pan ofynnodd ffrind i mi a fyddwn yn fodlon cynnal noson i ddathlu pen-blwydd arbennig. Felly dyma fynd ati i gasglu cerddorion. Cawsom sawl noson dda gyda'r Grogys.*

**PP: Yna daeth Sipsi Gallois. Ar ba fath o gerddoriaeth oedd y pwyslais y tro hwn?**



**GG:** *Un o brosiectau Neil Rosser yw Sipsi Gallois. Band yn chwarae yn null Steffan Grappeli a Django Rheinhart. Daeth galwad ffôn gan Neil un noson i ofyn o oedd diddordeb gen i mewn ymuno ac felly dyna ddechrau ar Y Sipsiwn. Addason ni hefyd sawl cân Gymraeg i'r dull cerddorol yma er mwyn cael amrywiaeth ehangach yn y set.*

**PP: A'r grŵp diweddaraf yw Los Twangos! Beth amdano?**

**GG:** *Ffurfiwyd Los Twangos ar ôl sgwrs yn Tesco o bobman gyda hen ffrind i mi, Huw Morgan o Bont-iets. Roedd e'n ysu am wneud rhywbeth cerddorol yn dilyn ymddeol fel peiriannydd gyda'r Cyngor Sir. Felly ar ôl cyfarfodydd a sgwrsio a threfnu dyma ni'n dechrau taith arall. Gyda llaw gwraig Huw roddodd y syniad am enw'r band*

pan gwynodd wrtho am lefel y sŵn yn y tŷ wrth iddo ymarfer. Meddai Ruth wrtho un noson, 'Os oes rhaid i ti dwango'r peth yna, twanga'n dawel!' A dyna ni. Mae aelodau'r Twangos yn dueddol o newid o un gig i'r llall. Ar hyn o bryd rydyn ni'n paratoi sioe ar gyfer gigs yng Nghwm Gwendraeth adeg Y Nadolig.

**PP: Mae'n siŵr bod gennyf gasgliad sylweddol o recordiau neu gwyno- ddisgiau y gelli droi atynt?!**

**GG:** *Mae gen i gasgliad mawr o recordiau feinil ynghyd â CDs yn cynnwys ystod eang o fathau o gerddoriaeth; canu gwlad, blues, jazz, clasurol ac ambell fand roc trwm.*

**PP: Oes rhywbeth newydd ar y gweill ar hyn o bryd Gareth?**

**GG:** *Wel, mae tipyn o amser yn mynd i baratoi sioe erbyn y Nadolig gan ddefnyddio rhai caneuon gwreiddiol ein hunain ynghyd â chlasuron o'r byd pop Cymraeg a Saesneg. Y bwriad y flwyddyn nesaf yw recordio CD ein hunain o ddeunydd gwreiddiol.*

**PP: Rhaid i ni beidio ag anghofio un grŵp pwysig arall rwyf ti'n perthyn iddo, sef Band y Priorddy. Wyt ti'n mwynhau hwnnw?**

**GG:** *Wrth fy modd. Mae'n hyfryd bod y to ifanc yn cael cydchwarae â ni ac rwy'n teimlo'i fod e'n ychwanegu at y canu cynulleidfaol yn y*



*Capel. Rwy'n gwybod fod Beti-Wyn wrth ei bodd hefyd. Wel os yw'r gweinidog yn hapus, rydyn ni i gyd yn hapus!*

**PP: Llauer o ddiolch i ti am ateb y cwestiynau Gareth – a diolch i ti a'r holl grwpiau am y gerddoriaeth!**



## PANED A SGWRS

**Bore Mercher, 9 TACHWEDD 2022 - 10.30**

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )**



**GWASANAETH DIOLCHGARWCH CLWB FFERMWYR IFANC  
DYFFRYN TYWI YN Y PRIORDY GYDFA HELEDD MAI JONES  
(CADEIRYDD) A’N GWEINIDOG BETI-WYN**



**Elevenes**

**Amser creadigol i gwrdd â ffrindiau newydd, rhannu straeon, gwenu a chofio**

**Gwener 11.00-12.30**

**Archebwch nawr – am ddim!**

**26 Hydref, 2,9,16,23,30 Tachwedd**

**[info@peoplespeakup.co.uk](mailto:info@peoplespeakup.co.uk) [www.peoplespeakup.co.uk](http://www.peoplespeakup.co.uk)**

**Catref Cynnes, Heol Llansteffan, Caerfyrddin, SA31 3NQ**

**07972651920**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 30 Tachwedd 2022 am 7 yn y Festrì**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod,  
yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd  
os gwelwch yn dda**

***Bydd y swyddogion yn aros ymlaen ar ddiwedd y cyfarfod i ddechrau paratoi  
ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2016***



# CARDIAU NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

*ar werth  
yn y Priordy  
Yn ystod mis Tachwedd*



**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS**

**Annwyl bawb**

**Dewch i gael swper gyda ni! Manylion ar y poster. Enwau i fi  
erbyn dydd Gwener yma os gwelwch yn dda**

**Beti-Wyn**

GWAHODDIAD I...

**‘SWPER’**  
**I GODI ARIAN I APÊL**  
**‘HADAU GOBAITH’**  
**CYMORTH CRISTNOGOL**

**NOS FERCHER, 9 TACHWEDD**

**BWYTY IONA MARKS,**  
**MART CAERFYRDDIN**

**6 O’R GLOCH AR GYFER 6.30**

**PRYD DAU GWRS.**  
**CINIO TWYM A PHWDIN CARTERF I DDILYN**  
**PRIS £18**  
**ENWAU I BETI-WYN A.S.A.P**  
**TREFNIR GAN EGLWYSI DOSBARTH MYRDDIN**



## EIN RHODDION AR Y Ffordd I'R Banc Bwyd



## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN





## **Nadolig yr Ofalaeth**

**Nos Sul 4 Rhagfyr  
am 5 yn y Priordy  
Oedfa dan Olau Cannwyll  
yng ngofal y Bobl Ifainc**



**Prynhawn Sul 11 Rhagfyr  
am 1 yng Nghana  
Gwasanaeth Nadolig a Pharti i ddilyn**

**Prynhawn Sul 11 Rhagfyr  
am 3 yn y Priordy  
Gwasanaeth Nadolig yr Eglwys  
Paned i ddilyn**

**Nos Sul, 11 Rhagfyr  
am 7 yn y Priordy  
Plygain Merched y Wawr**

**Bore Sul 18 Rhagfyr  
am 10 yng Nghana  
Oedfa Nadolig Undebol yr Ofalaeth  
Paned i ddilyn**

**Nos Sul 18 Rhagfyr  
am 6 ym Mancyfelin  
Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned  
Gorymdaith ac Oedfa – Paned / Parti i ddilyn**

**Bore Nadolig  
Oedfa Undebol yn y Priordy am 9 y bore**


## **DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Jayne Woods, Hefina Philips a Gareth Gravell a  
Rhieni'r Ysgol Sul - Angharad Wyn, Sioned Snelson, Lowri Davies,  
Nest Gwilym, Hanna Hopwood, Teleri Gruffydd, Mwynwen Jones a Llinos  
Robets - am y lluniau'r mis hwn.**





## DYLETSWYDDAU



## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



| Tachwedd    |           | Rhagfyr      |             |
|-------------|-----------|--------------|-------------|
| Gofalwr     | Gwresogwr | Gofalwr      | Gwresogwr   |
| Jayne Woods | Huw Jones | Dennis Jones | Huw Michael |



## BLODAU



| Tachwedd | 6  |               | Rhagfyr | 4  |              |
|----------|----|---------------|---------|----|--------------|
|          | 13 | Eirlys Davies |         | 11 |              |
|          | 20 |               |         | 18 |              |
|          | 27 | Gloria Evans  |         | 25 | Dydd Nadolig |



## PARATOI'R BWRDD CYMUN



| Tachwedd | 6 | Bore | Thelma Evans a Jaye Woods           |
|----------|---|------|-------------------------------------|
| Rhagfyr  | 4 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |



## DARLLENWYR



| Tachwedd | 6  | Y Plant       | Rhagfyr | 4  | Meinir Jones  |
|----------|----|---------------|---------|----|---------------|
|          | 13 | Eirlys Davies |         | 11 | Oedfa Nadolig |
|          | 20 | Alwen Owen    |         | 18 | Alun Charles  |
|          | 27 | Sulwyn Thomas |         | 25 | Y Bobl Ifainc |



## CYHOEDDWYR



| Tachwedd | Alison Parsons | Rhagfyr | Elinor W Reynolds |
|----------|----------------|---------|-------------------|
|----------|----------------|---------|-------------------|

## Y DDIWEDDAR MURIEL GIBBY

Bu farw Muriel yn dawel ar 21 Medi yng Nghartref Preswyl Castell Tywi, lle derbyniodd hi a'i diweddard briod, John, ofal mawr dros y misoedd diwethaf.

Merch o Glynderwen oedd Muriel. Wedi gorffen ei haddysg yn lleol, aeth ymlaen i Gaerfyrddin i astudio llawfer a theipio.

Dyma gwrdd â John a phriodi. Bu hon yn barternaeth arbennig iawn yn ymestyn dros gyfnod o 66 o flynyddoedd.

Buont yn byw yn Llandysilio ac Arberth cyn symud i Gaerfyrddin ac ymgartrefu yn y pen draw yn Awel y Coed, Llanllwch. Daethant yn aelodau yn Y Priordy lle magwyd y merched ynghyd â Nia a Steffan, eu hwyr a'u hwyres.

Bu Muriel a John y hynod o ffyddlon a chefnogol i bob agwedd ar waith yr eglwys, Bu Muriel yn paratoi'r Bwrdd Cymun yn ei thro, helpu yn y gegin ac yn rhan o dîm ffyddlon yr Ymwelwyr. Prin y byddai Muriel a John yn colli oedfa ac roeddent yn bresenoldeb cyson yng nghyfarfodydd y Gymdeithas ac ar Bererindodau'r Ofalaeth. Roedd Muriel yn ymroi'n llwyr i bopeth a fyddai'n cael ei ymddiried iddi.

Ymfalchiai Muriel yn ei theulu, a chafodd ofal rhagorol ganddynt. Bydd bwlch enfawr yn rhengoedd y teulu wrth i'r bennod hon yn eu hanes gau. A daeth diwedd ar bennod yn y Priordy hefyd wrth ffarwelio â'r ail o ddau y bu eu cefnogaeth i waith yr eglwys yn fawr ym mhob ffordd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Susan, Judith, Roland, Dyfed, Nia a Steffan a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Roedd angladd Muriel yn breifet yn ôl ei dymuniad. Cynhaliwyd oedfa gartrefol ym Mharc Gwyn ddydd Gwener, 7 Hydref. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog.

Coffa da am wraig ymroddgar a ffyddlon.

'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth.'

**Ein Gweinidog**



**DYMUWYN** yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ac mewn cartrefi ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bardd y Mis **Radio Cymru** mis Hydref oedd Elinor Wyn Reynolds. Ar bbc cymru fyw ceir *Pum munud gydag Elinor Wyn Reynolds* ble mae'n ateb nifer o gwestiau am ei hoffter o eiriau – a Chaerfyrddin.

Mae'n esbonio pam mae'n dwlu ar y lle ac yn diweddu drwy ddweud:

*Mae Caerfyrddin yn lle da i fagu teulu, mae'r plant wedi cael crwydro'r*

*dre heb achosi gormod o boen meddwl i'w rhieni, ac mae digon i'w wneud. Bydde*

*Mam yn arfer dweud, 'Ma pob dim yn Gyfyrddin.' O'dd hi ddim yn anghywir.* Mae

Elinor, fel ein Gweinidog, yn un o'r 100 o Gymry adnabyddus, sy'n cyfrannu yn y gyfrol

**Hoff Emynau'r Cymry (Rob Nicholls – Cyhoeddiadau'r Gair)**. A bydd llawer o

ddarlenn dros y Nadolig, mae'n siŵr, ar hunangofiant Cleif Harwood, prif leisydd

Edward H Davis, grŵp arloesol Cymraeg yn y 70au, sef **Breuddwyd Roc a Rôl**. Bu

Cleid yn paratoi'r gyfrol gyda chymorth Elinor Wyn Reynolds.



Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Sherman yn cyflwyno **Tylwyth** gan Daf James yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli yn ddiweddar. Yn y corws ar y diwedd roedd Nicki Roderick ymhlith y cantorion.

Bu galw mawr am gyfraniad Huw Michael ar **Radio Cymru** ac **S4C** yn ddiweddar. Y tro hwn bu'n trafod cyhoeddiad y Rhwydwaith Genedlaethol fod yna bosibilrwydd o doriadau yn y cyflenwad trydan yn y Deyrnas Unedig yn achlysurol dros y gaeaf os bydd amgylchiadau (er enghraifft cyfnod oer iawn, a phrinder nwy a thrydan yn Ewrop) yn galw am hynny. Byddai rhybudd diwrnod o leiaf ymlaen llaw am doriadau o hyd at dair awr ar y tro. Does ond gobeithio na fydd angen hyn!

Mae Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones wedi golygu **Nadolig**, sef cyfrol o gerddi newydd sbon am y Nadolig gan feirdd adnabyddus ac edrychwn ymlaen at ei darllen.

Bu mis Hydref yn fis codi ymwybyddiaeth o'r menopos. Mae yna alwadau i sicrhau fod dynion a phobl ifanc yn ymwybodol o'r symptomau. Un a fu'n rhan o'r drafodaeth ar y pwnc ar S4C oedd Alison Parsons.

Llongyfarchiadau i Ffion Parsons ar ennill gwobr pencampwr am ysbrydoli eraill gan



gwmni 'Engage to Change'. Cafodd y wobwr ei chyflwyno yng nghinio'r dathlu yng Ngwesty'r *Village* yng Nghaerdydd. Mae *Engage to Change* yn helpu pobl ifanc i gael swyddi ac yn eu cefnogi am gyfnod yn y gweithle. Cafodd Ffion gefnogaeth i ymgeisio am ei swydd yn *Cerebra*, ac mae hi wedi bod yn helpu *Engage to Change* trwy rannu'i phrofiadau. Da iawn yn wir!

**BU'N** Gweinidog yn cyflwyno **Munud i Feddwl** ar **Radio Cymru** yn ystod y mis..Mae Dyddiadur ein Gweinidog y dyddiau hyn yn orlawn, fel y gallwch ddychmygu, a gobeithio y gallwn ei harbed ychydig drwy roi o leiaf dipyn o hoe a llonyddwch iddi ar Ddydd Sadwrn!!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i'n  
Gweinidog neu Alun Charles**

**CYMDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Elen, Jona a Mali Marks  
ar farwolaeth eu tad-cu, Winston Marks, tad Ian, a oedd yn  
preswyllo yng Nghartref Erw Hir, ar 27 Hydref 2022. Cofiw'n  
am y teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.**

| <div style="display: flex; justify-content: space-between; align-items: center;">  <b>CWIS YR EMYNAU<br/>ATEBION</b>  </div> |                                         |     |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----|
| 1                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Tydi sy'n deilwng oll o'm cân           | 64  |
| 2                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron   | 92  |
| 3                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Ti, O Dduw, foliannwn                   | 127 |
| 4                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Tydi a roddest liw i'r wawr             | 131 |
| 5                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Tyrd atom ni, O Grêwr pob goleuni       | 222 |
| 6                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Tua Bethlem dref                        | 468 |
| 7                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Ti yw'r Un sy'n adnewyddu               | 579 |
| 8                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Ti yr hwn sy'n fôr o gariad             | 657 |
| 9                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Ti yr hwn sy'n gwrando'n gweddi         | 700 |
| 10                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw | 791 |

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**

Cyswllt

**PHILIP JONES** Trysorydd

**☎ 01267 233437 / [info@maxevans.co.uk](mailto:info@maxevans.co.uk)**





# Y SULIADUR



|          |    |             |                              |          |
|----------|----|-------------|------------------------------|----------|
| Tachwedd | 6  | <i>Bore</i> | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | <b>C</b> |
|          | 13 | <i>Bore</i> | Ein Gweinidog                |          |
|          | 20 | <i>Bore</i> | Ein Gweinidog                |          |
|          | 27 | <i>Bore</i> | Ein Haelodau                 |          |

|                       |    |                                  |                                                                                                                                                                                |          |
|-----------------------|----|----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Rhagfyr</b>        | 4  | <i>Bore</i><br><br><i>Hwyr</i>   | Ein Gweinidog<br>Casgliad at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg<br>Gwasanaeth Pobl Ifainc y Priordy (PIP) dan olau kannwyll am 5 o'r gloch                        | <b>C</b> |
|                       | 11 | <i>P'nawn</i><br><br><i>Hwyr</i> | Oedfa Nadolig y Priordy am 3 o'r gloch<br>Casgliad at yr Ysgol Sul Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn<br>Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn y Priordy am 7.30 |          |
|                       | 18 | <i>Bore</i>                      | Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana                                                                                                                                                  |          |
| <i>Bore'r Nadolig</i> | 25 | <i>Bore</i>                      | Oedfa Deulu i'r Ofalaeth yn y Priordy am 9 y bore                                                                                                                              |          |

**Bore Sul 11 Rhagfyr – Ymarfer ar gyfer yr Oedfa Nadolig am 10 y bore**

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC                                                              |    |    |    |         |    |    |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|----|----|----|---------|----|----|----|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant<br>OD – Oedfa Deulu |    |    |    |         |    |    |    |
| Tachwedd                                                                                     |    |    |    | Rhagfyr |    |    |    |
| 6                                                                                            | 13 | 20 | 27 | 4       | 11 | 18 | 25 |
| CP                                                                                           | ✓  | ✓  | ✓  |         |    |    | OD |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**  
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**



## DALIER SYLW

**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.**

